


Crynodeb o Adroddiad Ymchwilio:

## Pwyllgor Craffu Gwasanaethau Cymunedol ac Oedolion

# Y Prosiect 'Agosach at Adre': Lleoliadau y Tu Allan i'r Sir i Oedolion ag Anabledd Dysgu

**Chwef 2021**

CARDIFF
CAERDYDD

**Cyngor Caerdydd**

# CYNNWYS

**CYNNWYS** ........ 2

RHAGAIR Y CADEIRYDD ........ 3

**CYLCH GORCHWYL** ........ 6

Y DULL A DDEFNYDDIWYD ........ 7

CANFYDDIADAU ALLWEDDOL ........ 10

ARGYMHELLION ........ 26

# RHAGAIR

Mewn cyfarfod o'r Pwyllgor Craffu Gwasanaethau Cymunedol ac Oedolion a gynhaliwyd ar 7 Tachwedd 2018, cytunodd yr Aelodau i gynnal Ymchwiliad i'r broses o wneud penderfyniadau ar gyfer trefniadau byw â chymorth i oedolion ag anabledd dysgu; a oedd yn canolbwyntio ar y llwybrau presennol sydd ar waith ar gyfer trosglwyddo unigolion a nodwyd yn ôl i'r sir. Mae'r gwaith a gyflwynir yn yr Ymchwiliad hwn yn tynnu sylw at y ffaith bod y pwysau demograffig, y cyfyngiadau cyllidol a'r newidiadau sydd ar y gweill mewn deddfwriaeth, yn cyflwyno mwy fyth o angen i sicrhau bod cydweithio parhaus, o fewn adrannau'r Cyngor a'r holl randdeiliaid sydd ynghlwm. Yn ychwanegol at hyn, mae hefyd yn tynnu sylw at yr angen i sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei throsglwyddo mewn modd clir a rhagweithiol a bod llwybrau ffurfiol, penodol ar gyfer y rhai y nodwyd eu bod yn dychwelyd i'r ardal leol yn cael eu datblygu er mwyn rhoi arweiniad ac osgoi anghydfodau.

Mewn ymgais i sicrhau bod yr ymchwiliad hwn yn cynhyrchu tystiolaeth gadarn a manwl, ategwyd yr ymchwiliad gan ymchwil bwrdd gwaith ynghyd ag ymgysylltu ag ystod eang o ddefnyddwyr gwasanaethau a darparwyr naill ai'n wyneb yn wyneb neu drwy 'Gais am Dystiolaeth' yr ymchwiliad. Yn ogystal, comisiynodd aelodau'r grŵp gorchwyl ymchwil annibynnol hefyd i nodi gofynion gwybodaeth a chymorth defnyddwyr gwasanaeth a theuluoedd y rhai sydd i fod i bontio o ddarparwr y tu allan i'r sir, neu sydd wedi pontio. Cefnogwyd y prif ymchwil gan y gwasanaeth a oedd, ynghyd â darparu gwybodaeth gyd-destunol berthnasol, a chyda chydsyniad yr unigolion, hefyd yn darparu ymchwil craffu gydag enwau a manylion cyswllt y rhai a oedd am fod yn rhan o'r broses ymchwil. Roedd yr ymatebwyr yn cynnwys sefydliadau eirioli a rhieni'r rhai sydd mewn lleoliadau y tu allan i'r sir ar hyn o bryd, y rhai yr oedd eu plant yn pontio ar hyn o bryd a'r rhai yr oedd eu plant wedi cwblhau'r cyfnod pontio. Roedd yr ymchwil yn dibynnu ar fethodolegau ansoddol drwy ddefnyddio cyfweliadau a grwpiau ffocws. Mae'n bwysig nodi, yn unol â chylch gorchwyl yr ymchwiliad ac un o egwyddorion allweddol craffu; mae'r ymchwiliad hwn wedi rhoi lleisiau'r rhanddeiliaid allweddol a fu'n rhan o'r gwaith hwn wrth wraidd ei argymhellion. Fodd bynnag, mae'n parhau i fod yn ystyriol o'r ddeddfwriaeth, y polisïau a'r heriau y mae'n rhaid i wasanaethau weithredu ynddynt.

O'r dystiolaeth a gyflwynwyd yn yr adroddiad hwn mae'n amlwg bod gwaith o fewn y maes hwn yn mynd rhagddo'n barhaus ac yn cael ei arwain gan ymgyrch glir o fewn y gwasanaeth i sicrhau bod Caerdydd yn darparu gwasanaeth rhagorol ar gyfer oedolion ag anabledd dysgu. Y gobaith yw y bydd yr adroddiad hwn yn cefnogi'r gwasanaeth i oresgyn heriau'r presennol a'r dyfodol; gan ategu ymgyrch y gwasanaeth ar gyfer gwelliant parhaus.
Yn olaf, mae'n bwysig nodi y bwriadwyd i'r Ymchwiliad hwn gael ei gyflwyno'n ffurfiol i Gabinet y Cyngor yn ystod mis Ebrill 2020 yn wreiddiol, fodd bynnag, roedd dechrau pandemig Covid-19 a'r cyfnod clo cysylltiedig ledled y DU yn golygu bod oedi wrth gyflwyno'r adroddiad hwn yn ffurfiol.



**Y Cynghorydd Shaun Jenkins**
**Cadeirydd, Pwyllgor Craffu'r Gwasanaethau Cymunedol ac Oedolion**

Drwy gydol yr Ymchwiliad hwn, daeth yn amlwg bod cefnogi unigolion ag anabledd dysgu, mewn ffordd sy'n caniatáu iddynt ffynnu a datblygu'n barhaus, yn amcan a rennir gan yr holl randdeiliaid a ymgysylltodd â'r Ymchwiliad hwn. Roedd yn amlwg iawn bod yr holl randdeiliaid yn ceisio sicrhau'n barhaus y bydd unrhyw unigolyn ag anabledd dysgu yn cyflawni canlyniadau hirdymor, cynaliadwy sy'n eu galluogi i gymryd rhan weithredol mewn cymdeithas, a chyfrannu ati. Yn unol â'r amcan hwn, ac egwyddorion y Strategaeth Comisiynu ar y Cyd ar gyfer Oedolion ag Anableddau Dysgu 2019-2024 a deddfwriaeth y Tribiwnlys Anghenion Dysgu Ychwanegol ac Addysg (Cymru) sydd ar y gweill, mae'r Ymchwiliad hwn hefyd yn ceisio rhoi unigolion ag anableddau dysgu a'u gofalwyr wrth wraidd ei waith.

Mae aelodau'r Ymchwiliad hwn wedi gweithio'n galed i gyflwyno nifer o argymhellion i'w hystyried gan Gabinet y Cyngor, sy'n cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i: fesurau i helpu i sicrhau cyfathrebu tryloyw clir ar bob cam o'r broses; gweithdrefnau i helpu i nodi bylchau yn y gwasanaethau a ddarperir; prosesau sy'n helpu i fonitro ansawdd sgiliau a gwybodaeth unigolyn ar ôl pontio, dulliau sicrhau er mwyn osgoi atchweliad o ran sgiliau ac i sicrhau'r

ansawdd bywyd gorau posibl. Mae'r holl argymhellion a gynigiwyd yn yr Ymchwiliad hwn wedi'u seilio ar y dystiolaeth a gafwyd a safbwyntiau gwerthfawr y gweithwyr proffesiynol, y gofalwyr a'r eiriolwyr a fu'n rhan o'r Ymchwiliad hwn. Maent yn cael eu cyflwyno i'r Cabinet er mwyn ceisio ategu ethos y gwasanaeth o ddiwallu anghenion unigol drwy ofal a chymorth personol.

Manteisiodd yr Ymchwiliad ar gyfraniad gweithredol nifer o Aelodau o'r Pwyllgor hwn (yn y gorffennol a'r presennol), a chyfraniad defnyddiol a mewnwelediad sylweddol gan amrywiaeth o unigolion, gan gynnwys yr Aelod Cabinet dros Ofal Cymdeithasol, Iechyd a Lles, cyn Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol, uwch swyddogion a gweithwyr cymdeithasol rheng flaen o fewn y Gwasanaethau Oedolion, darparwyr, rhieni ac eiriolwyr lleol a'r tu allan i'r sir. Hoffwn ddiolch yn ddiffuant i'r holl randdeiliaid am eu lletygarwch, am fod yn agored a'u mewnbwn gwerthfawr iawn. Diolch hefyd i'r sefydliadau hynny a roddodd o'u hamser i ymateb i'r Cais am Dystiolaeth a gyhoeddwyd fel rhan o'r Ymchwiliad hwn. Hoffwn ddiolch hefyd i'r Aelodau a fu'n rhan o'r ymchwiliad hwn am eu hamser a'u hymroddiad parhaus tuag at waith yr Ymchwiliad.  Yn olaf, hoffwn ddiolch i'r Swyddogion Craffu sy'n rhan o'r Ymchwiliad hwn am eu gwaith caled penodedig ac am helpu i lunio'r hyn a ystyriaf yn Adroddiad rhagorol.



**Y Cynghorydd Mary McGarry**
**Cadeirydd y Grŵp Gorchwyl, Pwyllgor Craffu Gwasanaethau Cymunedol ac Oedolion**

# CYLCH GORCHWYL

Adolygodd y grŵp gorchwyl gwmpas drafft ar gyfer yr Ymchwiliad yn ei gyfarfod cyntaf a chytunwyd ar y cylch gorchwyl canlynol:

- Adolygu llwybrau presennol (gyda ffocws benodol ar y broses o wneud penderfyniadau) o ran trefniadau byw â chymorth i oedolion ag anabledd dysgu;
- Adolygu lleoliadau Coleg preswyl a sut mae penderfyniadau'n cael eu gwneud o ran parhad yn benodol;
- Adnabod arfer gorau o ran pontio unigolion o leoliad allan o'r sir yn ôl i Gaerdydd;
- Ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaeth a'u teuluoedd ar yr uchod, wrth geisio deall hefyd eu lefel o gyfranogiad - gan eu rhoi nhw wrth wraidd unrhyw argymhellion i'r dyfodol;
- Adnabod trefniadau ariannu presennol, ystyried a yw'r arian yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol a chyflwyno argymhellion yn unol â hynny;
- Adnabod ac argymell nifer o opsiynau a darpariaeth (yn seiliedig ar arfer gorau) allai gael eu datblygu a'u gweithredu yng Nghaerdydd.

# Y DULL A DDEFNYDDIWYD

Defnyddiodd yr ymchwiliad hwn dystiolaeth i wneud canfyddiadau ac argymhellion allweddol i Gabinet y Cyngor mewn perthynas â'r trefniadau presennol ar gyfer pontio unigolion ag anableddau dysgu a nodwyd sy'n byw y tu allan i'r sir.

Yn ystod yr ymchwiliad, cytunodd Aelodau'r Grŵp Gorchwyl i gynnal nifer o gyfarfodydd i dderbyn y wybodaeth ganlynol:

- Trosolwg a chefndir – er mwyn gosod cyd-destun yr Ymchwiliad a chael dealltwriaeth o'r prosiectau, y cynlluniau, y cynigion a'r broses asesu gyfredol ynghylch lleoliadau y tu allan i'r sir i oedolion ag anabledd dysgu.
- Y cyd-destun deddfwriaethol y mae'n rhaid i wasanaethau weithredu ynddo.
- Derbyniodd yr Aelodau dystiolaeth gan yr Aelod Cabinet dros Ofal Cymdeithasol, Iechyd a Lles, uwch swyddogion o fewn y gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol a thystion allanol o ddarparwyr y tu allan i'r sir a darparwyr lleol yn ystod eu hymweliadau gan gynnwys: Coleg Penybont, Coleg Elidyr, Glasallt Fawr, Gwerthoedd mewn Gofal, Gweledigaeth 21, Dimensions Cymru, Innovate Trust a Mirus.
- Er mwyn sicrhau bod yr ymchwiliad yn cael tystiolaeth bellgyrhaeddol, cyflwynwyd Cais am Dystiolaeth i ddarparwyr lleol a darparwyr y tu allan i'r sir er mwyn deall rôl y Cyngor a'r darparwr ymhellach o fewn proses bontio.
- Yn ystod yr Ymchwiliad hwn, comisiynodd y grŵp gorchwyl ymchwil sylfaenol gyda rhieni ac eiriolwyr er mwyn sefydlu gofynion gwybodaeth a chymorth defnyddwyr gwasanaeth a'u teuluoedd o fewn proses bontio. Roedd yr ymchwil yn dibynnu ar fethodolegau ymchwil ansoddol fel cyfweliadau un i un a grwpiau ffocws. Cynrychiolwyd cyfanswm o 12 o oedolion ifanc ag anableddau yn y gwaith. Gwahoddwyd rhieni dau unigolyn arall a oedd wedi pontio o leoliadau preswyl y tu allan i'r sir i gymryd rhan, ond am wahanol resymau ni ellid cynnal y cyfweliadau a drefnwyd.
- Arweiniodd y prif ymchwil a gynhaliwyd ar gyfer yr ymchwiliad hwn at adroddiad ar wahân o'r enw,
  '*Anghenion Gwybodaeth a Chymorth i Rieni ar y Prosiect "Agosach at Adre" ar gyfer Oedolion Ifanc ag Anableddau Dysgu'* ac mae ar gael ar gais.
- Manteisiodd yr Ymchwiliad hefyd ar ymchwil bwrdd gwaith helaeth, a oedd yn cynnwys ystyried y dogfennau a restrir yn y llyfryddiaeth ganlynol.

## Llyfryddiaeth

**Challenging Behaviours: Prevalence and Topographies. Journal of Intellectual Disability Research**. Lowe, K., Allen, D., Jones, E., Brophy, S., Moore, K.& James, W. (2007)

**Prosiect Agosach at Adre. Adroddiad Gwerthuso.** Uned Gyflawni'r Gwasanaeth Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu. Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg. Dr Edwin Jones a'r Athro Kathy Lowe, Mehefin 2017.

**Cyflawni Uchelgais Prifddinas. Cynllun Corfforaethol Cyngor Caerdydd 2019-2022.** Mawrth 2020

**Ymlaen Gyda'n Gilydd. Fframwaith Strategol ar gyfer Cydweithrediad Anabledd Dysgu De Cymru (Gwasanaethau Oedolion).** Gorffennaf 2013

**Canllawiau: Comisiynu Llety a Chefnogaeth i Roi Bywyd Da i Bobl ag Anableddau Dysgu.** Datblygu Arfer Gwell a Blaengar, Bwrdd Comisiynu Cenedlaethol. Bwrdd Comisiynu Cenedlaethol, Mawrth 2019

**Canllawiau: Ar gyfer Darparwyr Gwasanaethau ac unigolion cyfrifol ar fodloni Rheoliadau Safon Gwasanaeth ar gyfer: Gwasanaethau Cartrefi Gofal, Gwasanaethau Cymorth Cartref, Gwasanaethau Llety Diogel a Gwasanaethau Canolfannau Preswyl i Deuluoedd**, Llywodraeth Cymru, Fersiwn 2 Ebrill 2019

**Papur Trafod Dewisiadau Tai 4: Argymhellion Polisi ac Ymarfer,**
Tîm Datblygu Cenedlaethol ar gyfer Cynhwysiant, Mehefin 2017

**Strategaeth Comisiynu ar y Cyd ar gyfer Oedolion ag Anableddau Dysgu 2019-2024,** Cyngor Caerdydd, Cyngor Bro Morgannwg a Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro.2019

**Rhaglen Gwella Bywydau Pobl ag Anableddau Dysgu -** Llywodraeth Cymru, **2018**

**Predictors, Costs and Characteristics of Out of Area Placement for People with Intellectual Disability and Challenging Behaviour, Journal of Intellectual Disability Research Cyfrol 51(6)** Allen, D. G., Lowe, K. ,Moore, K., a Brophy, S., (2007)

**Ffyniant i Bawb: Adroddiad Blynyddol y Strategaeth Genedlaethol 2018,** Llywodraeth Cymru, Hydref 2018

**Papur Briffio Ymchwil. Crynodeb o'r Ddeddf: Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru),** Mawrth 2018

**Sicrhau Darpariaeth ar gyfer Pobl Ifanc ag Anawsterau Dysgu mewn Sefydliadau Addysg Bellach Arbenigol** Llywodraeth Cymru, Ebrill 2017

**Adroddiad ar Wasanaethau i Bobl ag Anableddau Dysgu ac Ymddygiad Heriol neu Anghenion Iechyd Meddwl** Yr Athro Jim Mansell, 2007.

**Comisiynu Gwasanaethau Llety i Oedolion ag Anableddau Dysgu yn Strategol** Swyddfa Archwilio Cymru, Mai 2018.

**The Health Status of Adults on the Autism Spectrum.** Croen et al (2015)

**Winterbourne View – Time for Change, Transforming the Commissioning of Services for People with Learning Disabilities and/or Autism -** A report by the Transforming Care and Commissioning Steering Group, 2014

# CANFYDDIADAU ALLWEDDOL

Daethpwyd i'r Canfyddiadau Allweddol isod ar ôl deuddeg cyfarfod a oedd yn cynnwys pedwar ymweliad diwrnod llawn â darparwyr gwasanaethau lleol a darparwyr gwasanaethau y tu allan i'r sir gydag amrywiaeth o dystion arbenigol. Cafodd yr Ymchwiliad ei lywio hefyd gan ymchwil desg helaeth ac ymchwil cynradd ac amrywiaeth o ddogfennau cefndir. Mae manylion yr holl dystiolaeth a ystyriwyd gan y grŵp gorchwyl ac a ddefnyddiwyd wrth baratoi'r adroddiad hwn wedi'u cynnwys mewn cofnod o dystiolaeth sydd ar gael ar gais.

Yn dilyn adolygiad o'r dystiolaeth, nododd Aelodau'r Grŵp Gorchwyl y Canfyddiadau Allweddol canlynol:

## Cyd-destun

Mae amcangyfrifon poblogaeth Caerdydd yn dangos y bydd nifer yr unigolion ag anabledd dysgu yng Nghaerdydd yn parhau i dyfu. Gyda phobl yn byw'n hirach ac felly angen cymorth am fwy o amser, bydd hyn yn rhoi pwysau a galw sylweddol ar wasanaethau lleol Caerdydd.
**CA1**

Mae data'n dangos bod gan Gyngor Caerdydd fwy o blant ac oedolion ifanc ag anableddau dysgu cymhleth o'i gymharu ag unrhyw awdurdod lleol arall yng Nghymru. Mae hyn yn bennaf oherwydd ei statws dinas ac argaeledd gwasanaethau lleol fel Ysbyty Plant Cymru. Bydd ffactorau o'r fath yn anochel yn arwain at bwysau ychwanegol ar y ddarpariaeth llety ofynnol; gan gynyddu'r angen am ddarpariaeth arbenigol ar gyfer achosion ag anghenion a/neu ymddygiadau iechyd a chymdeithasol cymhleth, sy'n gofyn am lefel uchel o gymorth amlasiantaethol.
**CA2**

Mae'r gwasanaeth yn cydnabod bod angen llety ychwanegol i unigolion sydd â'r anghenion mwyaf cymhleth yn lleol.
**CA3**

Mae cyhoeddiad Swyddfa Archwilio Cymru, *Comisiynu Gwasanaethau Llety i Oedolion ag Anabledd Dysgu yn Strategol, a* gyhoeddwyd yn 2018, yn datgan bod angen amcanestyniadau ariannol, poblogaeth a demograffig o ansawdd gwell ar awdurdodau lleol i fesur y galw yn y dyfodol er mwyn sicrhau eu bod yn gwneud y penderfyniadau mwyaf gwybodus. Am y rheswm hwn, mae'r gwasanaeth wedi cadarnhau ei fod wedi creu swydd Dadansoddwr Busnes.

**CA4**

Yn dilyn Deddf Plant 1989, symudwyd i greu tîm penodol arbenigol ar gyfer plant ag anableddau. Fodd bynnag, mewn ymgais i sicrhau cysyniadau trawsbynciol a rennir, bydd y gwasanaeth yn dychwelyd i'w fodel gwreiddiol ac yn dod yn 'Wasanaeth Anabledd Dysgu Pob Oed' lle mae staff ar draws pob maes Anableddau Dysgu (*Plant ac Oedolion*) yn cyfuno. Rhagwelir y dylai hyn annog gwell cydweithio o fewn y broses bontio, tra'n ysgogi diwylliant y gwasanaeth ar gyfer gwelliant parhaus tra'n parhau i fod yn agored ac yn ymatebol.

**CA5**

Mae'r Strategaeth Comisiynu ar y Cyd ar gyfer Oedolion ag Anabledd Dysgu (2019-2024) yn nodi sut y bydd Cynghorau Caerdydd a Bro Morgannwg a Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn cydweithio i ymateb i anghenion a dyheadau ein hoedolion ag anableddau dysgu mewn cyd-destun deddfwriaethol a chanllawiau cenedlaethol, cynlluniau lleol ehangach a'r adnoddau sydd ar gael. Ar lefel leol, bydd y strategaeth yn llywio'r gwasanaethau y bydd y tri sefydliad ar y cyd neu ar wahân yn eu comisiynu dros y pum mlynedd nesaf i ddiwallu canlyniadau personol, annog cyfranogiad ac annog annibyniaeth.

**CA6**

Prif flaenoriaethau Strategaeth Comisiynu ar y Cyd Caerdydd a'r Fro sy'n berthnasol i'r ymchwiliad hwn yw:

- Gwybodaeth; hygyrch a hawdd ei deall;
- Dewis a rheolaeth – gwrando ar farn y person a'r gofalwr;
- Gofal cywir ar yr adeg iawn – argyfwng cynnar a chymorth seibiant;
- Cyfleoedd dydd – gwirfoddoli a phrofiad gwaith

- Dylid cydgysylltu a chynllunio'r cyfnod pontio'n dda.

**CA7**

Mae Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (*y cyfeirir ati o hyn ymlaen fel y 'Ddeddf ADY'*) yn gwneud darpariaeth ar gyfer fframwaith statudol newydd ar gyfer cefnogi plant a phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae'n disodli'r ddeddfwriaeth bresennol sy'n ymwneud ag anghenion addysgol arbennig (AAA) a'r asesiad presennol o blant a phobl ifanc ag anableddau dysgu mewn addysg a hyfforddiant ôl-16. Yn hytrach, mae'r Ddeddf yn gwneud awdurdodau lleol yn gyfrifol am ddysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol o 0-25 oed.

**CA8**

Yn ystod yr ymchwiliad, cafodd yr Aelodau eu cynghori gan Arweinydd Trawsnewid Anghenion Dysgu Ychwanegol ar gyfer Consortiwm Canolbarth y De ac Uwch Arweinydd Cyflawniad Cyngor Caerdydd y gall dryswch godi yn sgil y dehongliad bod y Ddeddf ADY yn rhoi hawl i blentyn ag anghenion dysgu ychwanegol aros mewn addysg tan iddo droi'n 25 oed. Cadarnhawyd bod egwyddorion y Ddeddf ADY yn ymwneud â chydraddoldeb ac wedi'u nodi i sicrhau bod gan blentyn ag Anghenion Dysgu Ychwanegol yr un hawliau i gyrsiau addysg bellach â phlentyn heb Anghenion Ychwanegol, ac felly gall gael mynediad at gwrs hyfforddi tan iddo droi'n 25 oed.

**CA9**

Yn sgil y consensws a bennwyd gan gyhoeddiadau a chanllawiau polisi Llywodraeth Cymru, mae'r opsiwn addysg bellach i'r rhai ag anghenion dysgu ychwanegol yn cael ei weld gan gyrff llywodraethu i fod yn un sy'n cynnig y 'profiad coleg' sy'n cyfateb i ddwy flynedd o addysg, nid y 'profiad prifysgol' a fyddai'n dair blynedd o addysg.

**CA10**

Elfen allweddol o'r Ddeddf ADY yw ei hymdrech i gynyddu cyfranogiad yr unigolyn ag anableddau dysgu, gan ddweud ei bod yn hanfodol bod unigolion yn gweld y broses gynllunio fel rhywbeth a wneir ar y cyd â'r unigolion, yn hytrach nag ar ran yr unigolion. O'r herwydd, dylid eu hannog hwy a'u teuluoedd i gymryd rhan yn y broses gynllunio ar gyfer eu cyfleoedd addysgol drwy ddarparu cyngor, gwybodaeth ac eiriolaeth glir, ddiduedd.

**CA11**

Mae ymchwil sylfaenol a gynhaliwyd ar gyfer yr ymchwiliad hwn wedi dangos bod gan rieni pobl ag anabledd dysgu sy'n rhan o'r ymchwiliad hwn ychydig neu ddim gwybodaeth am y Ddeddf ADY ar hyn o bryd, ac am y newidiadau a ddaw yn sgil y ddeddf.

**CA12**

Mae'r Ddeddf ADY yn rhoi mwy o bwyslais ar osgoi anghytundeb a datrys anghydfodau. Oherwydd bod y Cynlluniau Datblygu Unigol (CDU) yn cael eu cynnal gan yr ysgolion, bydd y Ddeddf ADY yn cyflwyno gwahanol weithdrefnau apelio. Os bydd person ifanc neu riant (*neu unrhyw randdeiliad arall*) yn dymuno herio CDU unigolyn neu'r ddarpariaeth ddysgu y darparwyd iddo, bydd llwybrau clir iddo wneud hynny a rhaid i awdurdodau lleol gynnig gwasanaethau eiriolaeth annibynnol ar gyfer y llwybr hwn.

**CA13**

O dan y Ddeddf ADY, bydd y broses asesu ar gyfer pennu addysg bellach yn canolbwyntio ar angen addysgol; edrych ar y posibilrwydd realistig y bydd unigolyn yn cwblhau cwrs ac yn cyflawni nodau addysgol.

**CA14**

Bydd yr her o dan y Ddeddf ADY yn debygol o fod yn ymwneud â gallu a galw, ac er y bydd y cyfrifoldeb am ddarpariaeth addysg bellach yn dechrau yn yr ysgol, mae'r Ddeddf ADY yn rhoi pwyslais ar gyrff perthnasol, megis gwasanaethau oedolion sy'n cymryd rhan i sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc ag anabledd dysgu y gwyddys amdanynt yn ymwybodol o'r holl opsiynau sydd ar gael iddo.

**CA15**

Yn ystod yr ymchwiliad, clywodd yr Aelodau'n uniongyrchol am bryderon rhai o'r darparwyr addysg bellach arbenigol ynghylch yr hyn y gallai'r trefniadau arfaethedig o dan y Ddeddf ADY ei gyflwyno. Roedd y pryderon a godwyd i'r Aelodau yn cynnwys:

- Mae diffyg cydnabyddiaeth yn y Cod ADY Drafft o ddarpariaeth arbenigol fel rhan o'r cynnig addysg bellach ôl-16;
- Diffyg darpariaeth posibl ar gyfer cyngor ac arweiniad annibynnol i rieni a phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol cymhleth ac achos isel;

- Risg bosibl o wrthod Darpariaeth Dysgu Ychwanegol i bobl ifanc ag anghenion cymhleth yn sgil natur eu ADY.

Codwyd y pryderon canlynol hefyd ynghylch awdurdodau lleol:

- Gallai eu rôl fel aseswyr, comisiynwyr a chyllidwyr amharu arnynt;
- Dim ond gwybodaeth am opsiynau ôl-16 lleol ac eithrio darpariaethau addysg bellach arbenigol (*sydd i gyd y tu allan i'r sir ar hyn o bryd*) y gallent eu cynnig;
- Gallent ddod â CDU i ben yn hytrach nag ystyried lleoliad mewn darpariaeth addysg bellach arbenigol.

  **CA16**

Mae'r 'Protocol Amlasiantaethol ar gyfer Plant a Phobl Ifanc ag Anghenion Dysgu Ychwanegol' (*ar ffurf ddrafft ar hyn o bryd*) yn cael ei ddatblygu yn unol â gweithredu Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) (2018), egwyddorion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (2014) a chymhwyso Deddf Galluedd Meddyliol (2005) ymhlith deddfwriaeth a chanllawiau allweddol eraill. Lluniwyd y protocol gyda rhanddeiliaid o Addysg, Gwasanaethau Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol, ysgolion, sefydliadau addysg bellach a'r trydydd sector drwy gyfrwng cyfarfodydd, gweithdai a digwyddiadau ymgysylltu drwy gydol 2018-19. Mae'r protocol hefyd yn cysylltu â'r Strategaeth Comisiynu ar y Cyd ar gyfer Oedolion ag Anableddau Dysgu (2019-2024) gan y bydd ffrwd waith o'r strategaeth yn datblygu cynllun gweithredu sy'n benodol ar gyfer y rhai ag anableddau dysgu o fewn y cyfnod pontio.
**CA17**

## Cyllid *(dan y trefniadau presennol ar gyfer darpariaeth addysg bellach*

Ar hyn o bryd, mae tua 300 o leoliadau ôl-16 arbenigol yn cael eu hariannu ledled Cymru gan Lywodraeth Cymru ar unrhyw un adeg. Y gost gyfunol gyfartalog ar gyfer y lleoliadau hyn yw tua £21m y flwyddyn ar hyn o bryd – gyda thua 50% o'r gost yn dod gan Lywodraeth Cymru, 42% o ofal cymdeithasol (awdurdodau lleol) a thua 5% o gyllid iechyd.
**CA18**

Y cynnig o dan y Ddeddf ADY yw i gyllid ar gyfer pob lleoliad ddod o awdurdodau lleol; fodd bynnag, nid yw Llywodraeth Cymru wedi penderfynu eto sut y bydd hyn yn cael ei gyflawni yn

ymarferol. Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, nid oes fformiwla hysbys ar gyfer sut y penderfynir ar gyllid ac am y rheswm hwn mae pryderon sylweddol o fewn yr awdurdod hwn o ran anghysondebau rhwng awdurdodau lleol yng Nghymru. Er enghraifft, mae pryder y gellid ystyried bod gan yr awdurdodau hynny sy'n dangos tueddiadau uwch gostau cyfartal i awdurdodau lleol sydd â thueddiadau a gwariant llawer is.
**CA19**

Cytunwyd gan y rhan fwyaf o randdeiliaid a fu'n rhan o'r ymchwiliad hwn, er mwyn sicrhau newid cadarnhaol, y dylai'r penderfyniad ar hyd lleoliad unigolyn mewn addysg bellach ystyried nodweddion penodol yr unigolyn gan gynnwys ei gwmpas a'i alluoedd (cyfradd dysgu) ar gyfer datblygu'r sgiliau y mae'n gobeithio eu hennill. Awgrymir yn eang gan ddarparwyr a rhieni fod yn rhaid i gyrff llywodraethu gydnabod yn ddigonol y bydd unigolion ag anabledd dysgu yn cymryd amser i setlo i mewn i gwrs a bod blwyddyn gyntaf cwrs yn tueddu i weithredu fel cyfnod ymsefydlu, mae'r ail flwyddyn yn datblygu sgiliau newydd ac mae'r drydedd flwyddyn yn rhoi cyfle i gryfhau'r sgiliau hynny.
**CA20**

Mae'r gostyngiad yng nghyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer darpariaeth addysg bellach o dair blynedd i ddwy, hefyd wedi cael effaith ganlyniadol ar awdurdodau lleol', gan fod angen dod o hyd i fwy o lety 'camu ymlaen' yn awr.
**CA21**

Yn ystod yr ymchwiliad clywodd yr Aelodau gan ddarparwyr bod ansicrwydd neu gwestiynau ynghylch cyllid yn tueddu i achosi rhwystredigaeth iddynt hwy eu hunain a rhieni. Canfu ymchwil sylfaenol a gomisiynwyd gan yr ymchwiliad hwn awydd cryf ymhlith rhieni i ddeall y broses ariannu'n well.
**CA22**

## Cyllid

Yn ystod yr ymchwiliad hwn, cadarnhaodd ymgynghoriaeth annibynnol fod gwariant awdurdod Caerdydd yn gymharol isel o gymharu â gweddill Cymru o ran cymorth i oedolion ag anableddau dysgu, ond ei fod yn parhau i gynnal lefelau boddhad da o ran cymorth. Mae'r

canfyddiad hwn yn awgrymu lle i wella ansawdd y ddarpariaeth leol i'r rhai ag anghenion cymhleth ac i ystyried rhoi mwy o fynediad i ddarpariaethau y tu allan i'r sir pan fo angen.
**CA23**

Cadarnhaodd canfyddiadau ymgynghoriaeth annibynnol fod datgysylltu ar hyn o bryd rhwng cydweithwyr yr awdurdod lleol a'r gwasanaeth iechyd. Ailadroddwyd y byddai gwell cyfathrebu â chydweithwyr ym maes iechyd yn sicrhau gwell effeithlonrwydd wrth weithio a lefelau uwch o gyllid o bosibl, a fydd yn ei dro yn darparu gwasanaethau mwy effeithiol.
**CA24**

Dywedwyd wrth yr Aelodau, oherwydd yr hinsawdd bresennol o gyni a thoriadau, fod gofyniad ar swyddogion i aros o fewn cyllidebau penodol. Dywedwyd wrth yr Aelodau ymhellach fod lefel y cyfiawnhau a chyflwyno digon o dystiolaeth i gefnogi lleoliad drutach yn deillio o'r sefyllfa gyllidebol ynghyd â gofynion Dangosyddion Perfformiad Allweddol.
**CA25**

## Y Llwybr Pontio

Ar hyn o bryd mae pedwar Gweithiwr Cymdeithasol Pontio sy'n helpu i drosglwyddo unigolion o'r Gwasanaethau Plant i Oedolion o fewn yr awdurdod.
**CA26**

Canfu ymchwil sylfaenol a gynhaliwyd gyda rhieni yn ystod yr ymchwiliad hwn mai prin yw'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth o'r broses asesu ar gyfer cael gafael ar ddarpariaeth addysg bellach arbenigol gan gynnwys gofynion cymhwysedd, hyd y cyllid a rolau gwahanol randdeiliaid sy'n ymwneud â'r broses.
**CA27**

Mae'r broses cynllunio ar gyfer pontio bresennol ar ôl addysg uwchradd wedi'i nodi yng Nghod Ymarfer Anghenion Addysgol Arbennig Cymru (Llywodraeth Cymru, 2004) ac mae'n dechrau yn adolygiad blynyddol AAA Blwyddyn 9. Yn ystod yr ymchwiliad clywodd yr Aelodau y bydd unigolyn ag anableddau dysgu fel arfer yn pontio o'r ysgol i addysg bellach pan fydd tua 19 oed a gall bontio eto 2 – 3 blynedd yn ddiweddarach. Yn ystod yr ymchwiliad,

cadarnhawyd i'r Aelodau y gallai unigolyn aros gyda'r un gweithiwr cymdeithasol i oedolion yn ystod y cyfnod hwn neu y gallai gael ei ailddyrannu i weithiwr cymdeithasol arall yn dibynnu ar gapasiti.
**CA28**

Yn ystod yr ymchwiliad hwn, tynnodd rhieni a darparwyr y tu allan i'r sir sylw at yr angen am gysondeb o ran cynrychiolaeth gweithwyr cymdeithasol yn ystod y broses o adolygu lleoliadau addysg bellach.
**CA29**

Mae'r ymchwil sylfaenol a gynhaliwyd gan yr ymchwiliad hwn yn tynnu sylw at y ffaith y byddai'r rhan fwyaf o'r rhieni y cyfwelwyd â nhw, dan y trefniadau presennol, yn gofyn am well dealltwriaeth ac arweiniad o'r broses bontio sy'n gysylltiedig â symud eu plentyn o addysg bellach arbenigol i'r trefniadau gofal a chymorth priodol yng Nghaerdydd. Yn benodol, tynnodd rhieni sylw at yr angen i wella ymgysylltiad rhyngddynt eu hunain a'r gwasanaeth ynghyd â mwy o gydnabyddiaeth bod eu mewnbwn yn helpu'n sylweddol i gyflawni'r amcan o fodloni 'budd pennaf' plentyn.
**CA30**

## Manteision Lleoliadau y Tu Allan i'r Sir

Yn ystod yr ymchwiliad, mae manteision defnyddio lleoliadau y tu allan i'r sir (*o ran colegau addysg bellach a gosodiadau preswyl),* a gynigir gan ddarparwyr y tu allan i'r sir, yn cynnwys:

- Gwell symudedd cymdeithasol;
- Perthnasoedd ehangach;
- Mwy o hunanddealltwriaeth;
- Gwell hunaneiriolaeth a hunanddibyniaeth;
- Lleihau'r straen ar deuluoedd;
- Gwell canlyniadau iechyd meddwl;
- Teuluoedd yn gallu cael gwaith / mwy o gyfleoedd cyflogaeth;
- Gwell iechyd, lles ac ansawdd bywyd;
- Llai o dderbyniadau dewisol a rhai nad ydynt yn ddewisol i'r ysbyty.

**CA31**

Roedd sefydliadau addysg bellach arbenigol yr ymwelwyd â nhw yn ystod yr ymchwiliad yn elwa ar lawer o gyfleusterau a gwasanaethau ar y safle, gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i:

- Lleferydd ac iaith;
- Cwnsela;
- Asesiad therapi galwedigaethol.

**CA32**

Cydnabuwyd y manteision a'r canlyniadau'n gryf ymhlith y rhieni *(o'r rhai sydd â phlant mewn darpariaeth addysg bellach arbenigol y tu allan i'r sir)* a oedd yn rhan o'r ymchwiliad hwn a nododd yn y mwyafrif eu bod yn fodlon ar y canlynol;

- Y rhaglenni cymorth unigol;
- Argaeledd staff arbenigol;
- Datblygiad rhyfeddol yn sgiliau, gwybodaeth ac annibyniaeth eu plentyn.

**CA33**

Roedd pwysigrwydd ffactorau amgylcheddol a'u budd sylweddol i les corfforol ac emosiynol unigolyn (*ag anghenion penodol)* yn cael ei gydnabod yn eang gan yr holl randdeiliaid a fu'n rhan o'r ymchwiliad hwn.

**CA34**

Er nad yw coleg addysg bellach arbenigol yn addas i rai pobl ifanc ag anableddau, y safbwynt a gyflwynir i Aelodau gan ddarparwyr addysg bellach arbenigol yn ystod yr ymchwiliad hwn yw y gall y cyfle a gynigir gan leoliad arbenigol, i unigolyn ddysgu a byw ymhlith cyfoedion ag anghenion a phrofiadau bywyd tebyg, fod yn ffordd effeithiol iawn o'i helpu i gyflawni canlyniadau cynaliadwy hirdymor sy'n ei alluogi i gymryd rhan fwy weithredol mewn cymdeithas ynghyd â'u helpu i gamu ymlaen i fyw bywyd fel oedolyn.

**CA35**

Mae'r rhan fwyaf o rieni a gymerodd ran yn yr ymchwiliad hwn yn credu bod cyfle llawer cryfach o fewn darpariaeth addysg bellach arbenigol i'w plentyn ddod yn fwy aeddfed, yn fwy

annibynnol a datblygu sgiliau ychwanegol i ffwrdd o amgylchedd y cartref a'i bod hi'n hollbwysig bod gweithwyr proffesiynol yn cydnabod sgiliau a chyfle o'r fath.
**CA36**

## Pontio o ddarpariaeth y tu allan i'r sir

Yn ystod yr ymchwiliad hwn, nid oedd yr Aelodau'n gallu cael gafael ar wybodaeth gyhoeddedig a oedd yn cadarnhau ac yn nodi'n glir y llwybr pontio ar gyfer oedolion ag anabledd dysgu a allai gael eu pontio o ddarpariaeth y tu allan i'r sir. Daeth yn amlwg nad oedd gan y gwasanaeth fframwaith a chanllawiau cyhoeddedig ar sut i ddod ag unigolion a nodwyd yn ôl o'r tu allan i'r sir mewn ffordd strwythuredig a phersonol. Er bod cyfoeth o wybodaeth wedi'i darparu i'r grŵp gorchwyl, nid oedd unrhyw dystiolaeth bod hyn wedi'i gyfuno eto yn un 'llwybr' cadarn a ddefnyddir fel glasbrint ar gyfer dychwelyd oedolion a nodwyd i'w sir leol.
**CA37**

Os bydd unigolyn yn pontio o ddarpariaeth breswyl y tu allan i'r sir, ceir cyfraniad sylweddol gan y tîm amlddisgyblaethol, sy'n cynnwys cydweithwyr iechyd, tîm ymddygiad arbenigol ac yn y blaen. Yn ychwanegol at hyn, cynhelir cyfoeth o asesiadau risg ynghyd ag asesiad a dadansoddiad llawn o'r pecyn gofal hefyd. Cynhelir hyn mewn ymgynghoriad llawn â'r teulu a'r unigolyn (fel y bo'n briodol). Er bod asesiadau risg llawn a thrylwyr a dadansoddiad o'r pecyn gofal yn cael eu cynnal ar gyfer pob unigolyn, rhaid nodi nad yw cyfranogiad y tîm amlddisgyblaethol yn digwydd yn gyffredin i'r rhai sy'n pontio o goleg preswyl.
**CA38**

Cadarnhawyd i'r Aelodau mai'r ysgogwyr allweddol wrth benderfynu ar ddarpariaeth unigolyn yw:

- Dymuniadau'r unigolyn
- Dymuniadau'r teulu
- Anghenion yr unigolyn
- Sefyllfa'r gyllideb.

Cadarnhawyd bod pob ysgogwr yn gyfartal o ran pwysoliad.
**CA39**

Yn seiliedig ar farn y rhieni a fu'n rhan o'r ymchwiliad hwn, roedd yn ymddangos bod y canllawiau a'r amserlennu sy'n gysylltiedig â phontio unigolion allan o ddarpariaeth addysg bellach arbenigol yn anghyson iawn.

**CA40**

Clywodd yr Aelodau gan swyddogion y Cyngor y bydd cyfnod ailasesu'n cychwyn y flwyddyn cyn y bydd cwrs y rhai sydd wedi'u lleoli mewn darpariaeth addysg bellach yn dod i ben; canfu ymchwil yr ymchwiliad hwn fod y cyfnod pontio yn tueddu i gael ei gychwyn (*gyda'r rhieni*) tua 6 mis cyn diwedd y cwrs. Roedd rhieni o'r farn bod hyn yn rhy hwyr yn y broses ac roeddynt yn awgrymu y dylai trafodaeth ynghylch pontio ar gyfer y rhai a leolir ar hyn o bryd mewn darpariaeth addysg bellach y tu allan i'r sir ddechrau ar ddiwedd y flwyddyn gyntaf (*ar gyfer cyllid dwy flynedd*) neu ar ddiwedd yr ail flwyddyn (*ar gyfer cyllid tair blynedd*).

**CA41**

Yn ystod yr ymchwiliad, cadarnhawyd i Aelodau'r grŵp gorchwyl fod cyfoeth o waith yn mynd rhagddo i nodi eiddo ar gyfer unigolyn – gan nodi bod cydnawsedd â phreswylwyr presennol, yr amgylchedd, anghenion yr unigolyn a sicrhau bod gan aelodau'r staff y sgiliau cywir yn ganolog i'r broses. Canfu'r Aelodau fod arwyddocâd y ffactorau hyn yn cael ei gydnabod ymhlith yr holl randdeiliaid a oedd yn rhan o'r ymchwiliad hwn.

**CA42**

Er yr ailadroddwyd i'r Aelodau fod yr holl ddarpariaethau'n cael eu cydnabod, eu gwerthfawrogi a'u defnyddio'n gyfartal, mae gan Aelodau bryderon, dan yr arfer presennol, ei bod yn ymddangos nad yw darpariaethau a ystyrir yn 'gymunedau bwriadol' a'u budd fel darpariaeth yn cael eu cydnabod yn eang. Dymuna'r Aelodau ailadrodd pwysigrwydd gweld y gwerth ym mhob darpariaeth fel y nodir yn y ddogfen *Ffyniant i Bawb*.

**CA43**

Drwy ymgysylltu â rhieni a darparwyr, canfu'r ymchwiliad hwn, yn ystod y broses bontio yn dilyn darpariaeth addysg bellach, yr awgrymir opsiynau anghydnaws ac mae'n ymddangos bod proses yn cael ei dilyn hyd yn oed pan fydd rhanddeiliaid yn gwybod ac yn cael cyngor na fydd y lleoliadau a awgrymir yn gweithio.

**CA44**

Wrth adolygu cofnodion ysgrifenedig 20 o achosion, canfu'r ymgynghorwyr annibynnol nad oedd y wybodaeth a gedwir yn ffeil achos unigolyn yn cynnwys diffiniad o sut y cynhaliwyd y broses o wneud penderfyniadau wrth bontio (naill ai o goleg preswyl neu o gartref y teulu). I ymhelaethu, nid oedd yn cynnwys manylion am y ffactorau a oedd yn cyfrannu at y penderfyniad a sut y pwyswyd y dystiolaeth. Dangosodd yr adolygiad hefyd ei bod yn ymddangos bod canlyniadau a gasglwyd o fewn y data yn rhy gyffredinol gan ei gwneud yn anodd dwyn darparwyr i gyfrif a monitro cynnydd unigolyn yn effeithiol ar ôl pontio.

**CA45**

Rhoddodd darparwr y tu allan i'r sir a fu'n rhan o'r ymchwiliad enghraifft i'r grŵp o un preswylydd a drosglwyddodd adref pan gafodd gais am ymestyn y cyllid ei wrthod. Yna cysylltodd y gwasanaethau cymdeithasol â'r darparwr dair wythnos yn ddiweddarach gan holi a oedd darpariaeth ar gyfer yr unigolyn hwn ar gael o hyd gan y penderfynwyd nad oedd darpariaethau addas ar gael yn lleol.

**CA46**

Yn ystod proses bontio, mae Cynllunydd Cymorth yn gweithio gydag unigolion i wrando ar eu dyheadau a'u hanghenion o ran galwedigaethau ystyrlon. Mae gan y Cynllunydd Cymorth arbenigedd mewn gwybod pa gyfleoedd sydd ar gael yn lleol ac mae'n ymwneud ag unigolyn yn dilyn atgyfeiriad gan weithiwr cymdeithasol pe bai unigolyn yn dymuno gwneud gweithgareddau yn y gymuned, yn hytrach na mynd i goleg, neu ar ôl bod yn y coleg, neu tra'n mynychu'r coleg hefyd. Mae Cynllunwyr Cymorth yn ymwneud â thros 80 o ddarparwyr a gwasanaethau yng Nghaerdydd gydag ystod eang o gyfleoedd gwirfoddoli, cymdeithasol, chwaraeon, y celfyddydau, iechyd ac addysg i oedolion (dysgu gydol oes). Ers cyflwyno Cynllunwyr Cymorth, cadarnhaodd y gwasanaeth ei fod wedi gallu cynnig ystod llawer ehangach o ddewisiadau gyrfa, gan wella sgiliau, hyder a rhwydweithiau cymdeithasol unigolyn.

**CA47**

Canfu ymchwil sylfaenol a gynhaliwyd gyda rhieni yn ystod yr ymchwiliad hwn fod eu dealltwriaeth o'r broses bontio yn gyffredinol yn amrywio. Daeth yn amlwg bod angen eglurder

arnynt ar rolau rhanddeiliaid sy'n ymwneud â'r broses, gan gynnwys eu rôl eu hunain, ynghyd â llinell amser ddangosol a mwy o fanylion am y camau penodol sydd ynghlwm.
**CA48**

Yn ystod yr ymchwiliad, hysbyswyd yr Aelodau gan swyddogion bod opsiynau lleoli yn y dyfodol yn cael eu trafod yn barhaus gyda'r unigolyn a'r teulu pan fo angen. Cadarnhaodd canfyddiadau'r ymgynghorwyr ymhellach, yn yr ugain o achosion a adolygwyd ganddynt, fod tystiolaeth dda i ddangos bod pobl ifanc a'u rhieni/gofalwyr yn cymryd rhan weithredol yn y broses. Fodd bynnag, canfu ymchwil sylfaenol a gomisiynwyd gan yr ymchwiliad hwn mai dau riant o'r chwech a gymerodd ran yn yr ymchwil, yr oedd eu plant wedi mynd drwy'r broses bontio, wedi nodi bod eu profiad wedi bod yn un cadarnhaol. Dywedodd y rhieni eraill y gellir gwella'r modd yr ymgysylltwyd â hwy.
**CA49**

## Dysgu Gydol Oes

Rhannodd yr holl randdeiliaid a fu'n rhan o'r ymchwiliad hwn bwysigrwydd fframwaith dysgu gydol oes sy'n caniatáu datblygu unigolyn i raddau eithriadol, gan annog twf mewn hyder, datblygu annibyniaeth unigolyn a chael effaith gadarnhaol gyffredinol ar fywyd unigolyn.
**CA50**

## Canfyddiad o Ddarpariaethau Lleol

Er i'r holl ddarparwyr lleol a gymerodd ran yn yr ymchwiliad hwn ailadrodd bod cadw a datblygu set sgiliau unigolyn yn flaenllaw i'w sefydliad, canfu ymchwil sylfaenol yr ymchwiliad hwn, o'r rhieni yr oedd eu plentyn wedi pontio, nad oedd y rhan fwyaf yn siŵr a yw eu plentyn yn cael digon o gyfleoedd yn ei ddarpariaeth bresennol i ymgymryd â'r gweithgareddau a'r tasgau a fyddai'n helpu i gynnal y wybodaeth a'r sgiliau a gafaelwyd ganddynt yn ystod eu lleoliad mewn coleg.
**CA51**

Nododd Croen et al (2015) fod pobl ag awtistiaeth mewn mwy o berygl o gael problemau iechyd corfforol gan gynnwys diabetes, anhwylderau gastroberfeddol, colesterol uchel,

gorbwysedd a gordewdra. Gall perthynas â bwyd hefyd fod yn gymhleth oherwydd anghenion synhwyraidd, ymddygiad obsesiynol, pryder neu deimlo'n ynysig. Ailadroddwyd pryderon o'r fath gan rai o'r rhieni a oedd yn rhan o'r ymchwiliad hwn, a leisiodd eu pryderon nad oeddent yn siŵr a yw eu plentyn, sydd bellach yn byw mewn darpariaeth leol, yn cael ei annog i ymgymryd â digon o weithgarwch corfforol ac i ddewis bwyd iach.
**CA52**

Mae canfyddiadau'r ymchwil sylfaenol, a gomisiynwyd gan yr ymchwiliad hwn, yn dangos nad yw rhieni'r rhai sy'n byw mewn darpariaethau lleol ar hyn o bryd yn siŵr a yw gweithgareddau ar gyfer eu plentyn yn cael eu cynnal yn ôl y bwriad.
**CA53**

<u>Casglu Data</u>

Yn ystod yr ymchwiliad, hysbyswyd yr Aelodau bod asesiadau anghywir fel arfer yn digwydd oherwydd yr amrywiaeth o amgylcheddau lle cynhelir asesiad.
**CA54**

Mae 'Prosiect Dilyniant' Cyngor Conwy wedi'i gynllunio i gynorthwyo'r broses asesu drwy ddatblygu dealltwriaeth fwy gwybodus o anghenion llety a chymorth. Mae'r Prosiect yn cynnwys byngalo wedi'i adnewyddu sy'n galluogi unigolion i roi cynnig ar fyw'n annibynnol. Mae'n rhoi cyfle i unigolion fyw yno am y diwrnod, dros nos neu am ychydig ddyddiau er mwyn sicrhau y gellir bodloni eu hanghenion yn y ffordd orau bosibl.
**CF55**

O ganlyniad i'r Cais am Dystiolaeth a gyflwynodd yr Aelodau i ddarparwyr lleol a'r tu allan i'r sir, cadarnhawyd, pan gaiff lleoliad unigolyn ei gadarnhau, y bydd y darparwyr yn derbyn Cynllun Gofal a/neu Asesiad Unedig sy'n amlinellu galluoedd, gallu ac anghenion yr unigolyn, gan roi trosolwg byr o alluoedd cyfathrebu a symud yr unigolyn, ei anghenion corfforol ac emosiynol, offer arbennig, addasiadau, angen addysgol, gwybodaeth feddygol ac yn y blaen. Cadarnhawyd hefyd eu bod (*fel darparwr lleol*) hefyd yn cael asesiad ysgrifenedig o'r cyfleuster addysgol a/neu adroddiad seicoleg os yw'r unigolyn yn gadael coleg. Fodd bynnag,

nododd un darparwr lleol ei fod yn tueddu i dderbyn gwybodaeth ragarweiniol o'r fath am unigolion ar ôl dechrau yn y lleoliad.
**CF56**

Er mwyn sicrhau bod y broses o rannu gwybodaeth rhwng darparwyr yn effeithlon ac yn effeithiol, mae tîm Anableddau Dysgu Cyngor Caerdydd ar hyn o bryd yn gweithio gydag un darparwr y tu allan i'r sir ar ddatblygu dogfen hollgynhwysol i gynorthwyo'r broses hon. **CA57**

Wrth gwrdd â staff rheng flaen, holodd yr Aelodau pa ddata a gedwir ar y rhai sydd wedi pontio o ddarpariaeth y tu allan i'r sir ac os caiff yr effaith ar unigolyn sydd wedi pontio ei mesur yn benodol er mwyn sicrhau bod cynnydd yn cael ei gynnal. Dywedwyd wrth yr Aelodau y bydd gweithwyr cymdeithasol, yn dilyn cyfnod pontio, yn cynnal adolygiad 8 wythnos a fydd wedyn yn cael ei ailadrodd ar ôl 6 a 12 mis, a bydd adolygiadau ychwanegol hefyd yn cael eu cynnal os bydd angen. Gelwir gwaith o'r fath yn 'adolygiadau cynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn' neu'n 'gynlluniau llwybr'.
**CA58**

## Monitro ac Adolygu

Cadarnhaodd Cais am Dystiolaeth yr ymchwiliad hwn fod darparwyr lleol (*yn unol â'r Cynllun Gofal a ddatblygwyd gan weithwyr cymdeithasol*) yn datblygu Cynllun Personol gyda'r unigolyn, sy'n cynnwys dysgu gydol oes a chyfleoedd i ddatblygu sgiliau. Caiff y Cynllun Personol hwn ei adolygu o leiaf bob 3 mis gan staff y darparwr. Fodd bynnag, nid oedd mwyafrif y rhieni a gymerodd ran yn yr ymchwiliad hwn, yr oedd eu plentyn yn byw mewn darpariaethau lleol, yn ymwybodol o adolygiadau o'r fath.
**CA59**

Mae adroddiad Dr Edwin Jones ar brosiect Agosach at Adre Bae'r Gorllewin yn rhoi pwyslais sylweddol ar lwyddiant y model Cymorth Ymddygiad Cadarnhaol a'r defnydd o dîm amlddisgyblaethol craidd o fewn y broses bontio. Yn ogystal, mae'r adroddiad hefyd yn tynnu sylw at bwysigrwydd data, sy'n cael ei gasglu cyn ac ar ôl symud, ac yn cael ei ddefnyddio er mwyn deall a monitro'r effaith orau ar unigolyn sydd wedi symud er mwyn sicrhau y gellir byw bywyd mor llawn â phosibl.

**CA60**

Yn unol ag argymhelliad Adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru (*Comisiynu Gwasanaethau Llety i Oedolion ag Anabledd Dysgu yn Strategol, 2018, A6*), mae'n ymddangos bod diffyg proses fonitro a gwerthuso ffurfiol a systematig ar unigolion sydd wedi pontio sy'n cael ei rheoli gan yr awdurdod.

**CA61**

## Bylchau mewn Darpariaeth Leol

Fel y nodwyd yn nogfen ganllaw'r Bwrdd Comisiynu Cenedlaethol (*Comisiynu Llety a Chefnogaeth ar gyfer Bywyd Da i Bobl ag Anabledd Dysgu, 2019*), gall darparu'r math cywir o dai naill ai helpu neu lesteirio unigolyn wrth integreiddio yn y gymdeithas. Gall hefyd fod yn hanfodol er mwyn cyflawni nifer o'r canlyniadau a nodir yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.  Felly, pan wneir penderfyniad ynghylch darparu llety, mae'n hanfodol ystyried y sbectrwm llawn o ran diwallu anghenion yr unigolyn hwnnw.

**CA62**

Amlygodd ymchwil sylfaenol a gynhaliwyd ar gyfer yr ymchwiliad hwn ddisgwyliadau rhieni o ran yr angen i ehangu argaeledd darpariaeth gofal a chymorth lleol yn y Gymraeg.

**CA63**

Mae Adroddiad Mansell (*Gwasanaethau i Bobl ag Anableddau Dysgu ac Ymddygiad Heriol neu Anghenion Iechyd Meddwl, 2007*), sy'n cael ei ddisgrifio fel 'canllawiau pendant y DU ar ddatblygu gwasanaethau i bobl ag ymddygiad heriol', yn argymell bod gwasanaethau lleol, gan gynnwys gwasanaethau addysgol, hyfforddiant a gwasanaethau dydd yn cael eu datblygu a'u hehangu ar gyfer pobl ag anabledd dysgu. Mae'r adroddiad hefyd yn argymell y dylid datblygu gwasanaethau arbenigol yn lleol er mwyn gallu cefnogi arfer da, prif ffrwd a gwella ansawdd bywyd y rhai a wasanaethir.

**CA64**

Yn ystod yr ymchwiliad, cadarnhawyd i'r Aelodau fod y gwasanaeth wrthi'n datblygu strategaeth llety i helpu i gynllunio darpariaethau lleol hirdymor ac mae hefyd yn gweithio tuag at ddatblygu llwybrau pontio clir i sicrhau bod unigolion a'u teuluoedd yn deall yr opsiynau sydd ar gael yn unol â'u hangen yn llawn.
**CA65**

## ARGYMHELLION

Yn dilyn adolygiad o'r dystiolaeth a gafwyd yn ystod yr Ymchwiliad hwn, a'r Canfyddiadau Allweddol a nodir uchod, cytunodd yr Aelodau ar yr argymhellion canlynol i'w hystyried gan y Cabinet:

### <u>Cyd-destun</u>

**A1** Yn sgil Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) sy'n ei gwneud yn glir bod rhaid i Gynlluniau Datblygu Unigol o'r achosion mwyaf difrifol a chymhleth ddod yn gyfrifoldeb uniongyrchol yr awdurdodau lleol, dylai'r Gwasanaethau Cymdeithasol geisio llunio canllawiau a fydd yn rhoi diffiniad clir ac yn egluro'r gwahaniaeth, i bob gweithiwr proffesiynol sy'n gysylltiedig, rhwng anghenion cymhleth ac anghenion lefel is a'r gofynion angenrheidiol i gefnogi a datblygu anghenion o'r fath orau. Gallai'r gwaith hwn gael ei ddatblygu gan ddeiliad y swydd Dadansoddwr Busnes sydd newydd ei llunio a ddylai, o fewn ei rôl, hefyd ystyried y galw a ragwelir gan oedolion ag anabledd dysgu ar draws yr ardal. O fewn cyfrifoldebau y Dadansoddwr Busnes, rhaid iddo fod yn flaenoriaeth sicrhau a gwirio bod yr holl ddewisiadau a gynigir i unigolyn ag anghenion cymhleth, yn enwedig dewisiadau lleol, yn gwbl effeithiol o ran darparu amgylchedd a chyfleoedd i'r unigolyn a fydd yn annog, datblygu a chynnal ei sgiliau. Dylai cylch gwaith y swydd Dadansoddwr Busnes hefyd gynnwys monitro proses bontio'r gwasanaeth i 'Wasanaeth Anableddau Dysgu Pob Oed', gan roi ei ganfyddiadau parhaus i'r unigolyn priodol er mwyn sicrhau monitro cyson.
**(CA1, 2, 3, 4, 5, 23, 25, 31, 32, 33, 34, 35, 36, 39, 43, 50, 62, 63, 64)**

**A2** Dylai'r Dadansoddwr Busnes hefyd gynnal adolygiad o'r darpariaethau dysgu gydol oes lleol er mwyn sicrhau bod digon o gapasiti'n lleol i fodloni pwysau demograffeg hysbys. **(CA1, 2, 4, 50, 63**)

Cyfathrebu

**A3** Ceisio sefydlu strategaeth gyfathrebu ffurfiol ynghylch y broses bontio sy'n cadarnhau'r amcanion cyfathrebu, y gynulleidfa darged a chynllun a sianelau cyfathrebu. Bydd strategaeth o'r fath yn helpu i nodi'r rhanddeiliaid allweddol a'r wybodaeth allweddol sydd i'w chyfleu yn ystod y broses bontio, ynghyd â nodi sut a phryd y dylid cyfleu gwybodaeth. Dylai hyn sicrhau cyfathrebu cynharach a helpu i osgoi anghytundeb a gorfod datrys anghydfodau. **(CA6, 7, 12, 13, 15, 22, 24, 27, 30, 37, 38, 40, 41, 48, 49, 52, 54, 59, 65)**

**A4** Fel rhan o'r strategaeth gyfathrebu, dylid ymgysylltu'n ffurfiol â chynrychiolydd grwpiau defnyddwyr gwasanaeth yn rheolaidd i helpu i lywio a gwella'r broses o gynllunio a gwneud penderfyniadau. Gellid annog ymgysylltu o'r fath hefyd a'i ysgogi'n well drwy ei wneud yn fwy anffurfiol drwy ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol **(CA1, 2, 3, 4, 6, 7, 13, 17)**

**A5** Mae angen gwneud mwy o waith i sicrhau bod person ifanc ag anableddau dysgu a'i ofalwyr yn teimlo eu bod yn cymryd rhan fwy gweithredol yn y broses cynllunio gofal. Rhaid i swyddogion sicrhau bod cynlluniau gofal, gan gynnwys adolygiadau darparwyr, yn cael eu llunio mewn iaith hygyrch a phriodol er mwyn gwella dealltwriaeth. Dylid gwahodd unigolion a'u rhieni/perthnasau eraill sy'n gyfrifol amdanynt bob amser i fynychu Adolygiadau a chyfrannu at Gynlluniau Gofal (gan lynu'n gaeth at fesurau diogelu data, ystyried gallu'r unigolyn a'r rheoliadau a nodir yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru). Dylid llunio protocolau a chanllawiau clir ynghylch datrys anghytundebau sy'n ymwneud â chanlyniadau Cynlluniau Gofal ac Adolygiadau. Dylid datrys pob anghytundeb mewn modd amserol. **(CA6, 7, 11, 49, 58)**

**A6** Dylid datblygu a/neu gefnogi rhwydwaith anffurfiol o rieni sy'n benodol i'r rhieni hynny sydd â phlentyn sydd wedi'i leoli y tu allan i'r sir ar hyn o bryd (*gan gynnwys darpariaeth addysg bellach*) a'r rhai sydd wedi pontio yn ôl. Byddai'r rhwydwaith hwn yn chwarae rhan hanfodol yn y gwaith o ledaenu gwybodaeth, rhoi cymorth emosiynol i rieni gan gyfoedion a

hefyd ddarparu llwybr ffurfiol i'r gwasanaeth gael adborth ar faterion sy'n ymwneud â gwasanaethau a llety. Er mwyn ysgogi cysylltiadau a sicrhau effeithiolrwydd, dylai'r Aelod Cabinet a Chyfarwyddwr y Gwasanaethau Oedolion, Tai a Chymunedau, ynghyd â darparwyr lleol geisio ymgysylltu'n uniongyrchol â'r rhwydwaith **(CA3, 4, 6, 7, 8, 9, 12, 22, 27, 42, 47, 48, 49, 50, 52, 53, 65)**

**A7** Drwy'r rhwydwaith rhieni, dylid cynnal cynhadledd unwaith y flwyddyn i rieni'r rhai sydd ar fin pontio neu sydd wedi pontio o ddarpariaeth y tu allan i'r sir. Byddai'r gynhadledd hon unwaith eto'n helpu i ledaenu gwybodaeth a gellid ei defnyddio hefyd fel arena i ddarparu gweithdai i rieni megis rheoli argyfyngau, delio ag ymddygiad cymhleth ac yn y blaen. Unwaith eto, dylai'r Aelod Cabinet, a Chyfarwyddwr y Gwasanaethau Oedolion, Tai a Chymunedau, ynghyd â darparwyr lleol geisio bod yn rhan o'r gynhadledd, gan roi gwybodaeth i'r rhieni am ddarpariaethau lleol megis cymwyseddau staff, gwybodaeth ac astudiaethau achos lle mae darpariaethau byw amgen wedi gwella a datblygu sgiliau a chanlyniadau person ifanc. Bydd sicrwydd o'r fath yn cynorthwyo unigolyn a'i rwydwaith cymorth yn sylweddol i baratoi i bontio ac yn ystod cyfnod pontio. **(CA6, 7, 8, 12, 13, 17, 22, 27, 30, 47, 48, 49, 50, 51, 52, 53, 65)**

## Strategaethau a

**A8** Oherwydd y cynnig o dan Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) am roi'r cyfrifoldeb dros benderfynu ar ddarpariaeth addysg (*gan gynnwys cyllid*) i awdurdodau lleol, dylai'r gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol geisio adolygu'r trefniadau gweithio rhyngddynt hwy a'r gyfarwyddiaeth Addysg er mwyn sicrhau bod y cydweithio sy'n mynd rhagddo yn gadarn. **(CA8, 11, 15, 16, 20)**

**A9** Cyn y newid sylfaenol mewn cyfrifoldeb a nodir yn **A8,** a'r pryderon presennol ynghylch sut y bydd cyllid o'r fath yn cael ei gymorthdalu gan Lywodraeth Cymru, dylai'r awdurdod lleol barhau i lobïo Llywodraeth Cymru am fformiwla ariannu ddigonol gan dynnu sylw at y pwysau demograffig hysbys. **(CA1, 2, 18, 19)**

**A10** Yn unol â'r Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) sydd ar y gweill a Strategaeth Ffyniant i Bawb Llywodraeth Cymru, rhaid i'r holl weithwyr proffesiynol

sy'n gysylltiedig sicrhau bod yr holl ddarpariaethau'n cael eu trafod yn ystod y broses asesu gychwynnol gyda'r person ifanc a'r gwarcheidwad perthnasol wrth bontio i fywyd fel oedolyn. Er y cydnabyddir bod rheoliadau Llywodraeth Cymru yn nodi bod yn rhaid ystyried opsiynau lleol yn gyntaf yn y broses asesu, mae'n hollbwysig cydnabod manteision yr holl ddarpariaethau, gan gynnwys cymunedau bwriadol, ac felly eu rhannu gydag unigolion yn ystod y broses er mwyn osgoi rhagfarn ideolegol. Bydd hyn hefyd yn sicrhau, yn unol â phryderon darparwyr a ddaeth i law wrth gynnal yr ymchwiliad hwn, nad yw'r cynnig o addysg bellach arbenigol yn gostwng a bydd yn sicrhau bod manteision yr holl ddarpariaethau'n cael eu cydnabod tra'n lliniaru'r canfyddiad y gallai'r ffaith bod y Cyngor yn aseswr, comisiynydd a chyllidwr effeithio'n andwyol ar ei benderfyniadau. **(CA6, 7, 8, 11, 13, 16, 17, 31, 32, 33, 34, 35, 36, 43, 49, 50)**

**A11** O dan drefniadau'r Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru), dylai swyddogion, pan fo'n berthnasol, roi ystyriaeth briodol i'r posibilrwydd y bydd cwrs coleg addysgol unigolyn yn cael ei ymestyn i dair blynedd os penderfynir nad yw'r unigolyn wedi cyflawni ei ganlyniad addysgol ac y byddai'n elwa ar flwyddyn ychwanegol. **(CA20, 23, 25, 35, 44)**

**A12** Rhaid cydnabod yn glir y gall y rhai sy'n mynychu darpariaeth addysg bellach arbenigol, yn ogystal â derbyn canlyniadau addysgol, hefyd feithrin sgiliau ychwanegol fel sgiliau cymdeithasol a dod yn fwy annibynnol; rhaid i hyn gael ei bortreadu'n well gan staff awdurdodau lleol. Gellid cydnabyddiaeth o'r fath gael ei phwysleisio o fewn y llawlyfr posibl (A14). **(CA31, 32, 33, 34, 35, 36, 43, 50)**

## Cyllid

**A13** Fel rhan o'r Strategaeth Comisiynu ar y Cyd ar gyfer Oedolion ag Anableddau Dysgu (2019-2024), dylid ceisio sicrhau, a/neu gefnogi, y gwaith o sefydlu trefniant fframwaith ffurfiol clir rhwng yr awdurdod lleol a'r bwrdd iechyd. Bydd fframwaith o'r fath yn darparu rolau a chyfrifoldebau clir i'r cyrff ac o bosibl yn helpu i sefydlu cyllidebau cyfun, osgoi anghydfodau hir a chryfhau cydweithio ymhellach. **(CA6, 7, 24)**

## Y Llwybr Pontio

**A14** Ceisio datblygu llawlyfr sy'n cwmpasu'r sbectrwm llawn o broses bontio y gellir ei ddefnyddio wedyn fel adnodd ar gyfer lledaenu gwybodaeth i'r rhai ag anableddau dysgu a'u teulu, gan osod canllawiau a disgwyliadau clir a chwalu unrhyw ddryswch. Mae'n hanfodol bod y llawlyfr yn rhoi cwmpas llawn o'r 'camau nesaf' i unigolyn yn dilyn addysg uwchradd, ynghyd â'r holl opsiynau sydd ar gael iddo. Dylai'r llawlyfr hefyd geisio rhoi eglurder ynghylch y broses asesu ar gyfer darpariaeth addysg bellach, gan gynnwys ffactorau sy'n cyfrannu, sut y gwneir penderfyniadau, y dystiolaeth y bydd ei hangen yn ystod asesiad, crynodeb o'r broses ariannu, y llinell amser ar gyfer gwneud penderfyniadau a'r broses apelio, gan gynnwys cyfeiriad clir at reoleiddwyr perthnasol. Dylai'r llawlyfr hefyd ddarparu crynodeb o'r ddeddfwriaeth berthnasol a sut y gallai effeithio'n uniongyrchol ar unigolyn ynghyd â gwybodaeth am fudd-daliadau a hawliau y gallai'r unigolyn fod yn gymwys i'w cael. Dylai'r Llawlyfr hefyd geisio egluro hyd gyfartalog lleoliadau ar gyfer unigolion sy'n dilyn cwrs addysg bellach a hefyd ddarparu rhesymu cyffredinol ynghylch anghysondebau posibl mewn hyd cyrsiau. Rhaid darparu'r llawlyfr hwn i bob unigolyn sy'n pontio o wasanaethau plant i wasanaethau oedolion a rhaid iddo hefyd fod ar gael mewn ysgolion ac unrhyw lwybrau perthnasol eraill a ystyrir yn briodol. Dylai darparwyr lleol hefyd ystyried cyfrannu at y llawlyfr i sicrhau bod eu gwasanaethau'n cael eu hadlewyrchu'n llawn. Dylai'r Llawlyfr hefyd fod ar gael yn electronig ar wefan Cyngor Caerdydd a dylai hefyd fod ar gael mewn ieithoedd eraill ar gais. **(CA5, 6, 7, 8, 9, 10, 11, 12, 13, 14, 16, 17, 22, 27, 28, 29, 30, 31, 32, 33, 34, 35, 37, 38, 40, 41, 42, 43, 47, 48, 49, 50, 51, 52, 53, 59, 60, 65)**

**A15** Rhaid cael llwybr penodol, ar wahân a chanllawiau cyhoeddedig dilynol i bobl sy'n gadael addysg bellach. Rhaid i'r gwasanaeth sicrhau bod y llwybr yn mynd i'r afael â'r ystod lawn o ofynion unigolyn, gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, darpariaeth llety, cyflogaeth, darpariaeth dysgu gydol oes, iechyd, cyfeillgarwch a pherthnasoedd hirdymor (*gan ystyried anghenion y presennol a'r dyfodol*). **(CA6, 7, 8, 9, 10, 11, 12, 13, 14, 16, 17, 27, 28, 30, 37, 38, 40, 41, 42, 43, 47, 48, 49, 50, 51, 52, 53)**

**A16** Dylid ffurfio amserlen anhyblyg ar gyfer y broses o wneud penderfyniadau ar gyfer pontio rhwng darpariaethau, sy'n cynnwys amserlen benodol o bryd y mae'n rhaid rhoi gwybod i'r holl randdeiliaid am ganlyniad penderfyniad. O fewn yr holl ganllawiau cyhoeddedig, a thrafodaethau llafar, rhaid i bob swyddog awdurdod lleol sicrhau y rhoddir eglurder i unigolion a'u bod yn cynnwys aelodau o'r teulu wrth drafod hyd y lleoliad. Os darperir lleoliad dros dro neu os yw'n hysbys y bydd yn dod i ben (*e.e. cwrs addysgol*) rhaid darparu canllawiau clir ynghylch pryd bydd y cyfnod pontio yn dechrau i'r unigolyn ac unrhyw aelodau perthnasol o'r teulu cyn i'r lleoliad ddechrau. Er mwyn sicrhau nad oes unrhyw straen diangen yn cael ei roi ar yr unigolyn ag anableddau dysgu, rhaid cadarnhau darpariaeth ddilynol cyn i'r lleoliad ddod i ben. Os na ellir cadarnhau'r ddarpariaeth cyn i leoliad ddod i ben, os gall y darparwyr presennol ymestyn eu darpariaeth am gyfnod penodol, dylid rhoi ystyriaeth briodol i hwyluso posibiliadau o'r fath tra bo darpariaeth barhaol yn cael ei cheisio. Dylid ystyried y posibilrwydd hwn yn gynnar yn y broses bontio. Bydd mwy o strwythur o amgylch y broses o wneud penderfyniadau yn hwyluso cyfathrebu gwell rhwng yr holl randdeiliaid sydd ynghlwm, gan osgoi anghydfodau posibl a sicrhau canlyniadau mwy effeithiol i bawb sy'n gysylltiedig **(CA9, 10, 11, 13, 14, 23, 25, 37, 38, 40, 41, 44, 48, 49, 50)**

## Pontio o ddarpariaeth y tu allan i'r sir

**A17** Gan ystyried y pwysau demograffig hysbys, dylid cynnal adolygiad er mwyn ystyried a yw pedwar gweithiwr cymdeithasol pontio sy'n cwmpasu'r sbectrwm pontio llawn o wasanaethau Plant i Oedolion yn ddigon i ddarparu'r cysondeb gofynnol i unigolion, a allai hefyd fod yn pontio mewn darpariaeth llety, er mwyn sicrhau bod eu hanghenion yn cael eu diwallu orau, gan leihau unrhyw amhariad a thrallod posibl, a sicrhau'r cyfnod pontio hawsaf posibl. **(CA1, 2, 5, 26, 28, 29, 40, 41, 49)**

**A18** Rhaid i gytundeb ymhlith yr holl randdeiliaid o fewn proses bontio fod yn flaenoriaeth sylfaenol. Gellid cyflawni hyn drwy roi sicrwydd parhaus bod ffactorau cydnawsedd megis grŵp oedran, rhyw, math o anabledd dysgu, cymhlethdod anghenion cymorth, personoliaeth ac ati yn cael eu hystyried drwy gydol y broses bontio. Dylid rhannu'r dystiolaeth a gasglwyd yn ystod yr ystyriaeth hon gyda'r unigolyn ac aelod perthnasol o'r teulu (*lle y bo'n briodol ac yn unol â'r hyn a nodir yn A5*). **(CA38, 42, 45, 49)**

**A19** Ceisio datblygu canolfan asesu sy'n caniatáu ar gyfer cynnal asesiadau ar y safle a fydd wedyn yn sicrhau na fydd unrhyw unigolyn yn cael ei drosglwyddo o unrhyw leoliad y tu allan i'r sir, gan gynnwys darpariaeth addysg bellach, heb i lety priodol gael ei gyrchu a'i gadarnhau. Bydd cyfleuster o'r fath yn helpu i osgoi atchweliad posibl mewn sgiliau a/neu'n achosi straen ac aflonyddwch diangen i'r person ifanc ac unrhyw aelodau o'r teulu sy'n gysylltiedig, a bydd yn gweithredu fel adnodd ar gyfer cynllunio wrth gefn. **(CA25, 44, 46, 54, 55)**

**A20** Mae'r Aelodau o'r farn bod cefnogi pobl ifanc ag anableddau dysgu i symud ymlaen i fywyd fel oedolyn yn eu hardal gartref, yn pwysleisio ymhellach bwysigrwydd cynllunio cynnar a'r angen am fwy o waith drwy'r tîm amlddisgyblaethol o amgylch y person ifanc, sy'n hanfodol os yw'r unigolyn yn dymuno symud ymlaen i fyw'n fwy annibynnol. Felly, lle bo'n bosibl (ac yn ofynnol) rhaid defnyddio dull amlddisgyblaethol wrth drin â'r rhai sy'n gadael darpariaeth addysg bellach. **(CA35, 39, 60)**

**A21** Ceisio casglu adborth ynghylch pontio rhwng darpariaethau mewn ffordd fwy strategol drwy weithredu proses adborth strwythuredig gyda'r holl randdeiliaid perthnasol gan gynnwys y person ifanc ac aelodau o'r teulu sydd wedi pontio o ddarpariaeth y tu allan i'r sir. Dylai'r fframwaith geisio pennu boddhad defnyddwyr gwasanaeth, monitro perfformiad a nodi meysydd posibl i'w gwella o fewn y broses. **(CA58, 60, 61)**

**A22** Gweithio gyda darparwyr lleol i sicrhau bod yr holl dystiolaeth ddogfennol megis asesiadau risg, adroddiadau tŷ, ac amserlen gweithgareddau unigolyn a'r bwyd mae'n ei fwyta yn cael eu rhannu gyda rhieni (lle bo'n briodol) mewn modd mwy strwythuredig. Byddai proses o'r fath yn helpu i annog ac ysgogi hyder rhieni bod anghenion eu plentyn yn cael eu diwallu a bod eu plentyn yn datblygu, ac yn rhoi sicrwydd i rieni bod pob agwedd ar fywyd eu mab neu eu merch, fel dewis deiet, yn cael ei goruchwylio. **(CA51, 52, 53, 59, 60)**

**A23** Dylid cymryd rôl weithredol wrth annog darparwyr i ddatblygu eu dull Cymorth Ymddygiad Cadarnhaol ymhellach drwy strategaethau sefydliadol sy'n canolbwyntio ar ddatblygu sgiliau staff ac ymgorffori'r dull Cymorth Ymddygiad Cadarnhaol yn ehangach mewn ymarfer arferol. Annog a hwyluso darparwyr i ddosbarthu'r wybodaeth hon yn fwy eang i'r holl randdeiliaid perthnasol. **(CA51, 52, 53, 60)**

**A24** Annog dysgu ar y cyd ar draws darparwyr. Bydd dysgu ar y cyd nid yn unig yn rhoi cyfle i unigolion ag anableddau dysgu gwrdd â chyfoedion eraill, ond hefyd yn rhoi sicrwydd gwerthfawr o ansawdd y gofal a gynigir gan ddarparwyr lleol. **(CA51, 52, 53)**

## Casglu Data

**A25** Yn ystod y broses bontio, dylid sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei rhannu rhwng darparwyr cyn gynted ag y caiff darpariaeth newydd ei chadarnhau a sicrhau bod hyn yn parhau fel proses barhaus i baratoi ar gyfer y cyfnod pontio. Dylid darparu rôl weithredol wrth ardystio bod yr holl ddogfennau a gwybodaeth berthnasol a geir ar yr unigolyn yn ystod darpariaeth y tu allan i'r sir yn cael eu trosglwyddo i'r darparwr newydd cyn i leoliad ddechrau. Dylid ystyried cynnwys y broses hon o gyfleu gwybodaeth rhwng darparwyr o fewn Protocol Amlasiantaethol ar gyfer Plant a Phobl Ifanc ag Anghenion Dysgu Ychwanegol' Caerdydd a'r Fro (*ar ffurf ddrafft ar hyn o bryd*). Dylai'r wybodaeth a drosglwyddir rhwng darparwyr fod ar gael (*lle bo'n briodol*) ar gais. **(CA17, 46, 56, 57, 60)**

## Bylchau mewn Darpariaeth Leol

**A26** Os nad yw eisoes yn digwydd, dylid annog darparwyr lleol i ystyried cynnwys rhieni ar Fwrdd Ymddiriedolwyr. Byddai ymgysylltu a chydweithredu o'r fath yn ysgogi ac yn annog gwell cysylltiadau a dealltwriaeth rhwng rhieni a darparwyr lleol. **(CA51, 52, 53)**

**A27** Fel y nodwyd yn nogfen ganllaw'r Bwrdd Comisiynu Cenedlaethol, *Comisiynu Llety a Chefnogaeth ar gyfer Bywyd Da i Bobl ag Anableddau Dysgu*, mae angen ffocws clir ar y gwasanaeth wrth ddatblygu'r farchnad darparwyr, gan sicrhau bod yr holl ddarpariaeth a ddatblygir yn ychwanegu gwerth cymdeithasol ac yn gwella lles unigolyn. Yn unol â'r pwysau demograffig cynyddol, dylai'r gwasanaeth geisio datblygu darpariaeth arbenigol yn lleol sy'n darparu'n benodol ar gyfer y rhai ag anghenion cymhleth. **(CA1, 2, 3, 4, 23, 25, 33, 34, 36, 50, 62, 64, 65)**

**A28** Wrth ddatblygu opsiynau lleol, dylid defnyddio gwerthusiad ffurfiol i sicrhau bod cost a budd gwahanol fodelau yn cael eu hasesu'n gywir. Dylai'r gwasanaeth ystyried comisiynu

dadansoddiad cost a budd annibynnol ac asesiad o effaith manteision uniongyrchol a thymor hwy pob lleoliad y tu allan i'r sir, gan gynnwys manteision iechyd a chynaliadwyedd y sgiliau y gall unigolion eu caffael pan gânt eu lleoli y tu allan i'r sir, gan ganolbwyntio'n benodol ar y rhai sy'n cael diagnosis o anghenion cymhleth. Dylai gwaith o'r fath hefyd gynnwys costau meincnodi yn erbyn awdurdodau lleol eraill er mwyn pennu'r posibilrwydd o roi mwy o gyfleoedd i unigolion gael darpariaeth amgen, gan gynnwys lleoliadau y tu allan i'r sir lle y bo'n briodol. Bydd gwerthusiad ffurfiol o'r fath hefyd yn helpu i ddatblygu modelau lleol. **(CA3, 23, 25, 31, 33, 34, 35, 36, 50, 62, 64, 65)**

**A29** O fewn gwaith y Strategaeth Llety sy'n cael ei datblygu ar hyn o bryd i nodi, datblygu a gwella opsiynau lleol, dylai'r gwasanaeth geisio cynnwys adeiladau nad ydynt yn cael eu defnyddio ar hyn o bryd, yn enwedig y rhai sydd wedi'u lleoli ym maestrefi Caerdydd sydd â mwy o dir. **(CA3, 34, 62, 64, 65)**

## Monitro ac Adolygu

**A30** Rhaid adolygu iechyd, lles a set sgiliau pob unigolyn sydd wedi pontio o ddarpariaeth y tu allan i'r sir. Dylai'r broses hon gynnwys mesurau asesu penodol, sy'n cael eu cofnodi cyn ac ar ôl symud er mwyn pennu unrhyw 'effaith' bosibl y gallai pontio ei chael. Bydd monitro o'r fath yn sicrhau bod ansawdd bywyd a set sgiliau unigolyn yn cael eu cynnal a'u datblygu o fewn y darpariaethau. Dylid datblygu'r cynllun hwn ar gyfer mesurau asesu penodol yn unol â'r darparwyr a'i rannu wedyn gyda'r holl bartïon dan sylw gan gynnwys yr unigolyn a'i deulu (*lle bo'n briodol*). **(CA45, 50, 57, 60, 61)**

# AELODAU PWYLLGOR CRAFFU'R GWASANAETHAU CYMUNEDOL AC OEDOLION



Y Cynghorydd Ali Ahmed



Y Cynghorydd Shaun Jenkins
**(Cadeirydd)**



Y Cynghorydd Joe Carter



Y Cynghorydd Andrea Gibson



Y Cynghorydd Norma Mackie



Y Cynghorydd Ashley Lister



Y Cynghorydd Philippa Hill-John



Y Cynghorydd Sue Lent



Y Cynghorydd Mary McGarry

Gwasanaethau Craffu, Cyngor Sir Caerdydd

Ystafell 263, Neuadd y Sir, Glanfa'r Iwerydd, Caerdydd CF10 4UW

E-bost: barngraffu@caerdydd.gov.uk

(h) 2021 Cyngor Sir Caerdydd